



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

**Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch)
(Cymru) (Diwygio) 2006**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2006 ("y Prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau yn bennaf yn rhoi effaith i Gyfarwyddeb yr UE 2004/38 ar hawliau gwladolion y GE a'u teuluoedd i symud a phreswyllo mewn Aelod Wladwriaethau eraill a hefyd yn diwygio'r Prif Reoliadau trwy gyflwyno ffurf newydd ar gymorth sef benthyciad o ran ffioedd coleg sy'n daladwy gan fyfyrwr cymhwysol i goleg neu neuadd breifat barhaol Prifysgol Rhydychen neu i goleg Prifysgol Caergrawnt.

Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Rheoliad 4 yn mewnosod diffiniad newydd o "Fenthyciad ffioedd coleg" i'r Prif Reoliadau. Daw'r diffiniad yn nhermau "adran 22 o Ddeddf 1998" ond nid yw'r Prif Reoliadau yn diffinio Deddf 1998. Mae angen diwygio rheoliad 2(1) y Prif Reoliadau er mwyn mewnosod diffiniad o "Ddeddf 1998". [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Mae Rheoliad 10 yn cyfeirio at "reoliad 6(4A) (fel y mewnosodwyd gan reoliad 8 uchod)". Dylai'r

cyfeiriad cywir fod i'w fewnosod gan reoliad 9. [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Yn rheoliad 44, yn y testun Cymraeg, mae paragraff newydd 3(4) Atodlen 4 yn cael ei rifo yn "(2)" [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Mae Atodlen 1 y Rheoliadau yn amnewid Atodlen 1 newydd i'r Prif Reoliadau. Mae anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r Saesneg o'r diffiniad o "aelodau o deulu". Mae testun Saesneg paragraffau (a)(iii), (c)(ii), (d)(ii)(bb) ac (Iii) ac (e)(ii)(bb) y diffiniad yn cyfeirio at berthnasau uniongyrchol gweithiwr "y ffin" o'r AEE, gweithwyr mudol o'r AEE, gweithiwr "y ffin" o'r AEE sy'n berson hunangyflogedig, person hunan gyflogedig o'r AEE, person cyflogedig Swisaidd, person cyflogedig "y ffin" Swisaidd, person hunangyflogedig Swisaidd "y ffin" a pherson hunangyflogedig Swisaidd, gwladolyn y GE nad yw'n hunanddigonol, gwladolyn y GE sy'n hunanddigonol, a gwladolyn y DU a'r hyn sy'n perthyn i weithwyr "y ffin" o'r AEE etc gwr neu wraig neu bartner sifil; nid yw'r testun Cymraeg yn cyfeirio at berthnasau uniongyrchol gweithwyr o'r AEE etc ac mae'n cyfeirio'n unig at berthnasau uniongyrchol gweithwyr yr AEE etc eu gwr neu wraig neu bartner sifil. [Rheol Sefydlog 11.7 (v)].

Yn y testun Cymraeg mae'r pennawd a ddylai ddweud "Atodlen 2" yn dweud "Atodlen 3" [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae testun Saesneg paragraff 3(c) yr Atodlen 3A newydd yn cyfeirio at "1 Medi 2006"; mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "11 Medi 2006". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Paragraffau 10(10)(d) testun Saesneg Rhan 2 o Atodlen 1 a 11(1) yr Atodlen 3A newydd yn cynnwys iaith benodol o ran rhyw [Rheol Sefydlog 11.7(vii)].

Gellir cywiro'r gwallau drafftio, anghysondebau ac achosion o iaith benodol o ran rhyw uchod drwy Femorandwm Cywiriadau.

Sylwadau

Dim.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

4 Gorffennaf 2006